# Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)
# Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** Dydd Llun 2 Tachwedd 2020

**Yr aelodau a oedd yn bresennol**
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Eleri Salisbury, CNC (Yn cofnodi)
Sarah Hetherington, CNC (SH)
Ed Davies, CNC (ED)
Ruth Johnston (RJ)
Nichola Salter, CNC (NS)
Katy Simmons, CNC (KS)
Bob Vaughan, CNC (RV)
Marc Williams, CNC (MW)
Dennis Matheson, TFA (DM)
Kate Snow, United Utilities (KS)
Aled Jones, FUW (AJ)
Arfon Williams, Cyswllt Amgylchedd Cymru (AW)
Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru (AC)
Fraser McAuley, CLA (FM)
Geraint Hamer, LlC (GH)
Jamie McCoy, AHDB (JM)
Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru (AK)
Lee Price, Menter a Busnes (LP)
Sarah Jones, DWWW (SJ)
Shane Thomas, CFF (ST)
Spencer Conlon. Llywodraeth Cymru (SC)
Creighton Harvey, CFF (CH)
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru (RLD)
James Ruggeri, HCC (JR)

**Ymddiheuriadau**
Matt Lowe, CNC

## Eitem 1: Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac agorodd y cyfarfod drwy gyfeirio at farwolaeth drist Mr Steven Marsh Smith. Gwnaeth ei ddisgrifio fel cyfaill a chydweithiwr. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch am y gwaith gwych a wnaeth a'r holl bethau yr oedd wedi'u gwneud er lles afonydd a bywyd gwyllt Cymru. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwaith y grŵp hwn a sut y mae'n rhaid iddo barhau i wneud newidiadau fel y byddai wedi Steven wedi dymuno.

**Datganiadau o Fuddiant**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan neu godi unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.

**DS:** Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 13 Gorffennaf 2020

Dywedodd y Cadeirydd ychydig o eiriau am ailgychwyn gwaith y grŵp a pharhau drwy'r cyfnod ofnadwy yma rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd. Gwahoddwyd pawb i ystyried sut y gall grŵp symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol gan anelu at ei nod. Esboniodd nad diben y cyfarfod hwn oedd cynnal trafodaeth anecdotaidd hir ynghylch y problemau.

Dywedodd y Cadeirydd fod y grŵp yn awyddus i gefnogi amaethyddiaeth a ffermio, sicrhau sector amaethyddol llewyrchus yng Nghymru a gofyn i bawb ystyried sut y gall y grŵp gyflawni dros gyfnod amaethyddiaeth gynhyrchiol heb achosi llygredd.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r grŵp fod yn falch o'r gwaith a wnaed dros y 3 blynedd diwethaf mewn gwahanol weithgareddau sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr.

Siaradodd y Cadeirydd am y ffaith ei bod wedi cael ei hysbrydoli yng nghynhadledd DCWW yr wythnos flaenorol. Roedd Bethan Evans, sef siaradwr yno, wedi siarad am arloesedd ac ymddygiad ‘gwthio’. Esboniodd y Cadeirydd ei bod yn credu mai dyma beth y mae’r grŵp hwn wedi bod yn ei wneud yn ei barn hi, gan wthio’r diwydiant i wneud yn well ac yn well. Teimlai fod hyn yn rhywbeth yr oedd angen i’r grŵp ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd y bu sôn am ddata gwell a chyfeiriodd at Adroddiad Prosiect SWEPT. Unwaith eto, awgrymodd y Cadeirydd fod hyn yn rhywbeth y dylai’r grŵp ei ystyried h.y. data a'r angen am dystiolaeth.

Soniodd y Cadeirydd am lwyddiant ysgubol a’r ffaith bod y grŵp wedi bod yn rhan o gyfarfodydd a rhaglenni gwych gyda Cyswllt Ffermio ac awgrymodd y dylai'r grŵp gynyddu yn awr.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r grŵp geisio osgoi gorlwytho. Ni ddylai greu gormod o gamau nad oes modd eu cymryd. Awgrymodd y dylai’r grŵp yn y gweithdy heddiw dynnu sylw at rai materion, gan ganolbwyntio arnynt ac yna symud ymlaen.

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb aros yn gadarnhaol ac ystyried y pethau hynny y mae modd eu gwneud i gefnogi amaethyddiaeth Cymru i fod yn well ac osgoi damweiniau a

sefyllfaoedd a lleihau llygredd gwasgaredig. Roedd angen meddwl am ymddygiadau a chydweithio.

Roedd y Cadeirydd yn falch iawn o groesawu E Davies. I ddechrau, bydd ED o CNC yn rhoi cymorth i Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru am ddau ddiwrnod yr wythnos tan fis Ionawr, yna 3 diwrnod mewn swydd dechnegol. Y gobaith oedd y byddai’n gweithio’n amser llawn erbyn mis Ebrill 2021 am gyfnod o 12 mis. Esboniwyd rôl ED sy'n cynnwys rhywfaint o'r gwaith gydag ystadegau amaethyddol.

Anogodd y Cadeirydd bawb i rannu eu manylion cyswllt ag ED ac o bosibl gael sgwrs i'w helpu i ddod i adnabod pawb.

Esboniodd y Cadeirydd fod newyddion da eraill yn ymwneud â'r swydd weinyddol. Mae cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol a byddai hyn yn gymorth i Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r grwpiau gorchwyl ar greu coetiroedd yn ogystal â rheoli rhai prosiectau.

Esboniodd RV fod CNC wedi buddsoddi cryn ymdrech ac adnoddau yn hyn oherwydd ei fod am symud y prosiect yn ei flaen. Er eu bod yn gwerthfawrogi'r heriau y mae pob asiantaeth yn eu hwynebu o ran adnoddau, dywedodd eu bod yn cael eu hannog i ymuno, os yw'n bosibl, lle gallant helpu i ddarparu adnoddau a chyfrannu at symud pethau ymlaen.

Aeth y Cadeirydd drwy’r cofnodion o safbwynt unrhyw newidiadau posibl a gwnaed y sylwadau canlynol:

• Tudalen 5 – Cododd CH Bwynt Gweithredu Gorffennaf 1. Mae’r cofnodion yn dweud "Dywedodd CH fod Angling Cymru yn pryderu bod CNC a DCWW yn cael eu beirniadu oherwydd bod angen i'r cyhoedd …' dylai’r cofnodion nodi Afonydd Cymru ac nid Angling Cymru.

• Gofynnodd CH hefyd, fel pwynt cyffredinol wrth wneud y cofnodion, ai’r fformat yw defnyddio enwau llawn neu ddim ond blaenlythrennau. O ystyried bod y papurau hyn i'w cyhoeddi'n ehangach, gofynnodd a ddylent ddefnyddio blaenlythrennau yn unig? Cytunodd y Cadeirydd mai dim ond blaenlythrennau ddylai gael eu defnyddio o hyn ymlaen.

• Cododd y Cadeirydd y cwestiwn ynghylch statws y we a chynnwys Cofnodion y grŵp. Diweddarodd MW y grŵp i esbonio bod yr holl gofnodion ar y safle. Roedd gwaith i'w wneud ar y fformat i sicrhau ei fod yn addas i’w roi ar y we. Diolchodd CH i bawb am gwblhau'r gwaith.

• Cyfeiriodd SJ at y cyfarfod diwethaf a’r drafodaeth ynghylch Gorlifau Carthffosydd Cyfun a negeseuon i'r cyhoedd neu dirfeddianwyr ehangach ac esboniodd ei bod wedi cysylltu â MW am hyn ond y gall anfon rhai dolenni eto i wefan DCWW a llyfryn byr sy'n esbonio beth yw Gorlifau Carthffosydd Cyfun. Gofynnodd MW iddo gael ei anfon eto.

***PG 01 Tachwedd: SJ i rannu gwybodaeth am Orlifau Carthffosydd Cyfun gyda'r grŵp.***

• Cydnabu'r Cadeirydd fod hwn yn bwnc llosg a chytunodd CH ac esboniodd fod Afonydd Cymru yn trafod yr holl fater a'u bod yn bwriadu ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd a pham cyn dod i unrhyw gasgliad a heb ddilyn unrhyw feirniadaeth gyffredinol heb wybod y ffeithiau llawn.

• Esboniodd DM fod dau achos o ollwng carthion domestig lleol wedi'u cofnodi a hysbyswyd y grŵp fod y person a fu’n gyfrifol am hyn wedi mynd i’r afael â’r broblem ond bod y gwaith hwnnw wedi cymryd 6 mis.

• Pwysleisiodd RV, os yw unrhyw wybodaeth fel hon yn hysbys a bod ganddi enghreifftiau lle nad yw'r ymateb cystal â'r disgwyl, roedd angen iddi roi gwybod iddo a bydd yn mynd i’r afael â’r mater er mwyn ceisio sicrhau bod pethau’n digwydd yn brydlon fel y gellir galluogi dysgu a gwella.

***PG 02 Tachwedd: grŵp i rannu ymateb mewn perthynas â digwyddiadau/ag ymchwiliadau gyda BV/CNC.***

• Gofynnodd y Cadeirydd am yr wybodaeth ddiweddaraf am ordyfiant algâu yn Afon Gwy. Dywedodd RV y bu llawer o ddiddordeb yn hyn dros yr haf a'r dybiaeth uniongyrchol yw ei fod yn deillio o’r cynnydd yn nifer yr unedau dofednod sy'n cael eu datblygu. Mae CNC yn gwneud llawer o waith o ran ystyried hyn ac yn bwriadu darparu adroddiad sefyllfaol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Esboniodd fod dau fesur i’w hystyried mewn perthynas â’r Afon Gwy, Mesurau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Cynefinoedd ACA ac mae CNC wedi cynnal llawer o waith ailasesu data a modelu. Tynhawyd y gwaith monitro yn 2014 a'r canlyniadau yw nad yw lefelau ffosffad yn yr afon i lawr i'r lefelau targed a osodwyd. Mae hyn yn broblem ond yn un sy'n wahanol i ordyfiant algâu felly mae CNC yn rhoi rhaglen ar waith i gyrraedd y targed llym iawn. Hefyd, mae ymchwiliad ynghylch y blodeuo wrthi’n cael ei gynnal. Mae'n amlwg bod problemau â maethynnau ond nid yw’r prif achos yn hysbys oherwydd yn gyffredinol mae lefelau ffosffad wedi bod yn gostwng ers yr 1980au.

• Roedd CH am dynnu sylw at y ffaith bod gan Afonydd Cymru ac eraill bryderon mawr am hyn a dywedodd y bydd unrhyw beth y mae CNC yn ei wneud yn cael ei wylio'n agos iawn gan grwpiau eraill hefyd.

• Dywedodd RV fod adborth a gwaith craffu yn dda gan eu bod yn sicrhau bod y sefydliad yn ymwybodol o'i rôl a bod pawb am weld yr un canlyniad. Dywedodd eto fod CNC yn gweithio'n galed ar Afon Gwy ac afonydd eraill yng Nghymru i adolygu'r sefyllfa.

• Gofynnodd FM drwy'r testun bar ochr a oedd diweddariad ar y digwyddiad ym Mhontithel. Roedd RV yn ymwybodol o'r ymchwiliad ond nid oedd ganddo’r wybodaeth ddiweddaraf.

***PG 03 Tachwedd: RV i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad ym Mhontithel a diweddaru'r grŵp.***

• Cyflwynodd SC yr wybodaeth ddiweddaraf ac esboniodd fod y Gweinidog yn parhau i dderbyn cyngor ar y rheoliad arfaethedig ac mae'n rhagweld cyflwyno tystiolaeth i'r Gweinidog yn ystod yr wythnosau nesaf. Gofynnodd AW pa fath o gyngor fyddai hwnnw? A fydd yn debyg i'r cynigion drafft ar gyfer y rheoliadau neu a fydd yn newid neu’n welliant sylweddol h.y. yr un peth yn fras? Nid oedd SC mewn sefyllfa i ddweud.

## Eitem 3: Crynodeb Byr, Adolygu ac Adnoddau

Soniodd y Cadeirydd am y cylch gorchwyl a'r angen am ryw fath o ddiweddariad. Esboniodd fod y grŵp yn canolbwyntio ar lygredd dŵr ond roedd hefyd yn gwneud rhywfaint o waith ar aer a phlastigau.

Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a dywedodd os na fyddai unrhyw sylwadau byddai'n adolygu ac yn diweddaru gyda ED wrth i'r grŵp symud ymlaen.

Cyfeiriodd AF at aer a dŵr a bod tarddiad llygredd yn aml yr un fath. Dywedodd ei bod yn ymddangos yn synhwyrol i gynnwys llygredd aer yng ngwaith y grŵp hwn yn fwy ffurfiol gan mai'r un oedd yr achos yn aml iawn.

Esboniodd DM ei fod ef ar ddeall y byddai'r person a oedd yn mynd i'r afael â'r ymgynghoriad ar aer yn cael ei wahodd i ymuno â'r cyfarfod hwn o ganlyniad i sgwrs tua deufis yn ôl. Roedd y Cadeirydd yn cofio'r un sgwrs.

Dywedodd SH fod Fforwm llawn Rheoli Tir Cymru, pan gafodd ei ddiweddaru gyda'r canllawiau amonia, yn dweud y byddai'r gwaith yn dod at ei gilydd drwy'r is-grŵp hwn. Fodd bynnag, ni chafwyd yr haf a ragwelwyd a bu'n rhaid ymgysylltu â rhanddeiliaid ar sail 1:1. Dywedodd fod Jeremy yn bwriadu dod â'r mater yn ôl i'r grŵp hwn ond bod yr ymgynghoriad ar agor o hyd a bod CNC yn edrych ar bolisi ar welliant sy'n fwy eang ar draws maes adnoddau naturiol yn hytrach na'i fod yn canolbwyntio ar un mater. Nid yw, fodd bynnag, mewn sefyllfa i gyflwyno unrhyw beth eto.

Dywedodd RLD fod yn rhaid ystyried dulliau/ymatebion yn gyfannol ac y bydd y cynigion, gyda'r ymgynghoriad ar ganllawiau sgrinio amonia, yn gweithio yn erbyn amcanion y grŵp hwn i wella ansawdd dŵr. Cadarnhaodd hefyd fod yr ymgynghoriad hwnnw ar agor hyd 30 Tachwedd.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen bod yn siŵr nad yw gwahanol raglenni'n anghyson ac felly awgrymodd y gall aer gael ei gynnwys yn y grŵp a gofynnwyd i RV a oedd angen sgwrs am hynny a'i hychwanegu at y cylch gorchwyl.

***PG 04 Tachwedd: RV a'r Cadeirydd i drafod ac adolygu'r cylch gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithgorau eraill fel Fforymau Pysgodfeydd a Dŵr.***

Gwnaeth RLD y pwynt bod angen cefnogi a deall buddsoddiadau sy'n cydnabod gwelliannau amgylcheddol drwy'r fframwaith polisi neu fel arall bydd un yn gweithio yn erbyn y llall.

Cefnogodd CH sylwadau RM i ryw raddau o ran y buddsoddiad hwnnw sydd ei angen i helpu llygredd dŵr ond mae llawer o faterion cyffredin a mesurau'n cael eu cymryd hefyd o ran llygredd aer ac mae'n cytuno y dylai'r grŵp ddelio â'r ddau.

Byddai'r penderfyniad yn cael ei gydgysylltu'n dda mewn un grŵp.

Siaradodd SH am gwmpas y grŵp ac esboniodd fod angen bod yn ofalus wrth geisio gwneud popeth ar yr un pryd ac awgrymodd fod angen rhaglen waith glir yn nodi'r hyn a fydd yn cael ei ddarparu.

Roedd RLD am ei gwneud yn glir ei bod yn sôn am y materion penodol a oedd ynghlwm wrth ganllawiau sgrinio amonia a fydd yn rhwystr i'r cynnydd ym maes gwella ansawdd dŵr drwy atal prosiectau seilwaith rhag cael eu datblygu.

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb barhau i feddwl am yr hyn y gellir ei wneud, mewn darnau y gellir eu rheoli. Gofynnodd i aelodau'r grŵp feddwl am yr hyn y gallant ei wneud yn unigol a'r hyn y gall eu sefydliadau ei wneud i helpu i bennu atebion i'r problemau.

***PG 05 Tachwedd: aelodau i ystyried atebion posibl i broblemau a gweithio fel grŵp.***

Pwyntiau Gweithredu Blaenorol:

• Mawrth 3ydd – Trafodaethau i'w cynnal ar sut i symud y grŵp AgriScope yn ei flaen: siaradodd MW â Mark Squire a fydd yn siarad ag Eifiona yn Llywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf ar gyfer pecynnau samplu dŵr a hefyd am gymorth i'r grwpiau. Nid oedd gan LP ddiweddariad pellach.

• Gofynnodd SH, mewn perthynas â grwpiau eraill sydd wedi gorffen, a oes ganddynt unrhyw wersi wedi'u nodi y gallai'r grŵp hwn eu cymryd, arfer da neu ganlyniadau a gyflawnwyd? Dywedodd LP nad oedd y gwersi hyn wedi'u datgelu'n gyhoeddus oherwydd eu bod yn gyfrinachol, ond bydd yn siarad â'r rheolwr o fewn Cyswllt Ffermio am astudiaethau achos ac enghreifftiau o waith a wnaed.

***PG 06 Tachwedd: LP i edrych ar astudiaethau achos Cyswllt Ffermio ac enghreifftiau o waith a wnaed i nodi'r gwersi a ddysgwyd.***

• Cyflwynodd RV yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid i gefnogi'r adroddiad ar safon dŵr. Roeddent yn edrych yn fewnol ac yn allanol am arian. Bydd cyfle o'r flwyddyn nesaf ymlaen i edrych ar gais cystadleuol - bydd RV yn edrych ar y llwybr hwnnw i geisio cael rhywfaint o arian yn ôl i'r grŵp. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw un wedi clywed DCWW yn siarad am Gronfeydd Arloesedd OFWAT ac a allai hyn fod yn gyfle.

• Nid oedd SJ yn siŵr beth mae hynny'n ei olygu a chynigiodd ymchwilio i'r mater. Cyfeiriodd SJ bawb at dudalennau gwe Arloesedd DCWW lle mae cyfle i gyflwyno syniadau newydd a dulliau arloesol o feddwl.

• Gweithredu mewn perthynas â graean – Heb ei gwblhau

• Ystadegau am Orlifau Carthffosydd Cyfun – Heb ei gwblhau.

• KS i anfon dolen am Brosiect Afon Dyfrdwy at RB – Camau heb eu cwblhau

• Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru – Camau Gweithredu heb eu cwblhau

• Camau sy'n disgwyl sylw – Cyfathrebu

***PG 07 Tachwedd: SC i anfon diweddariad e-bost at MW i'w ddosbarthu ar blastigau gwastraff.***

• Gwnaed U10

## Eitem 4: Argymhellion Blaenoriaeth Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Argymhelliad 3.1**

Cyflwynodd MW yr wybodaeth gefndir a gofynnodd i'r grŵp sut y gallai hyn gael ei ddatblygu, pwy allai arwain a chefnogi hyn?

Gofynnodd SJ am ragor o wybodaeth am Brosiect Llwytho Maetholion CNC a beth ydyw. MW i ddosbarthu'r pecynnau gwaith. Esboniodd MW y bydd gwybodaeth CNC yn dod yn ôl i'r grŵp ond gofynnodd pa ddata arall a allai fod ar gael/sy'n hygyrch gan sefydliadau neu ffynonellau eraill.

***PG 08 Tachwedd: MW i ddosbarthu'r pecynnau gwaith ar gyfer y Prosiect Llwytho Maeth.***

Dywedodd AK fod rhai prosiectau'n cael eu hariannu o gyllidebau cyfalaf ansawdd dŵr a allai fod yn addas i'r disgrifiad hwn. Prosiectau peilot fel prosiect BRICKS mewn perthynas ag ansawdd dŵr. Geraint yn arwain felly awgrymwyd cyswllt.

Pwysleisiodd CH bwysigrwydd y mater hwn. Gofynnodd MW eto am unrhyw syniadau ar sut i fynd at gontractwyr a'r ymateb oedd bod angen sicrhau ei fod yn ddigon deniadol i gontractwyr.

Esboniodd y Cadeirydd i bawb fod pobl yn deall y broblem ond gofynnwyd iddi ble y gellir ceisio cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael ag achos sylfaenol llygredd.

Gofynnodd MW ai'r teimlad oedd mai dyma'r unig brosiect y dylid edrych arno neu a ddylid hefyd ystyried gwaith arall.

Dywedodd CH fod gwaith arall.

Awgrymodd AW y dylid ceisio sefydlu maint y broblem drwy synhwyro o bell, ffotograffau o'r awyr.

Siaradodd SH am y Maetholion yng Nghymru a'r hyn y bydd yn ei gyflawni ond awgrymodd mai'r hyn sydd angen ei wneud yw edrych ar arferion a chasglu'r dystiolaeth.

Esboniodd RB hefyd nad oes problem gyda'r gwaith Maethynnau a'r pwynt yw a oes unrhyw achosion sylfaenol eraill y mae angen eu harchwilio er mwyn rhoi gwell siawns o ddatrys y darlun cyflawn.

Awgrymodd ED fod gan Asiantaeth yr Amgylchedd offeryn mapio risg llygredd gwaddodion sy'n gweithio ar sail delweddau lloeren sy'n caniatáu i adnoddau ganolbwyntio'n well ar nodi lle mae llygredd gwaddodion yn fwy tebygol o ddigwydd.

Awgrymodd SJ fod angen newid ymddygiad - gan annog rheolwyr tir mewn rhai achosion i addasu rhywfaint ar yr hyn y maent yn ei wneud neu weithiau ei drawsnewid. Nid oedd yn ymwybodol fod unrhyw linell sylfaen o ran arferion ymddygiad cyfredol i wybod sut i gyflwyno negeseuon. Dywedodd SH hefyd nad yw'r rhwystrau i newid yn hysbys.

Esboniodd KS fod y math hwn o waith yn cael ei wneud mewn dalgylch penodol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn dewis ffermydd ar hap ond gan sicrhau cynrychiolaeth amrywiol i geisio cael darlun o natur y gydymffurfiaeth ar y ffermydd hynny. Efallai y bydd yn gallu cyllido rhywbeth ond byddai'n rhaid ei wneud ar Afon Dyfrdwy ond yn gyfyngedig i Afon Dyfrdwy. RV i siarad yn uniongyrchol â KS a byddai angen i CNC arwain oherwydd hawliau mynediad. Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gyfle cyffrous i ddangos tystiolaeth o waith ar afon allweddol.

***PG 09 Tachwedd: RV i siarad yn uniongyrchol â KS a byddai angen i CNC arwain oherwydd hawliau mynediad.***

Dywedodd LP fod Cyswllt Ffermio yn cefnogi busnesau sydd wedi'u cofrestru gyda gwaith cynllunio a chymorth a chyngor ar seilwaith a rheoli maetholion ac yna gwaith dilynol i ddeall pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion a gallai wneud rhywfaint o waith dadansoddi ar unrhyw ddalgylchoedd â blaenoriaeth.

Gofynnodd DM a yw swyddogion prosiect llaeth yn casglu gwybodaeth ac awgrymodd mai'r broblem sy'n debygol o godi yw’r amser y mae'r gwaith yma’n ei gymryd.

Dywedodd SN mewn perthynas â'r Prosiect Llaeth nad ffermwyr llaeth yn unig sy'n lledaenu deunyddiau organig i dir er budd amaethyddol. Mae Cyfleustodau, Gwastraff er enghraifft a gweddillion treuliad achrededig yn mynd ar dir ac mae’n bwysig cofio hyn. Byddai'n ddiddorol gwybod pa gydymffurfiaeth y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn edrych arni yn nalgylch Dyfrdwy i weld beth allai gael ei ddyblygu yng Nghymru.

Dywedodd KS ei fod yn hapus i rannu ond megis dechrau yw’r gwaith hyd yma.

Dywedodd ED ei fod yn credu bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd offeryn mapio risg llygredd gwaddodion sy'n gweithio ar sail delweddau lloeren sy'n eich galluogi i wneud gwell defnydd o adnoddau er mwyn nodi lle mae llygredd gwaddodion yn fwy tebygol o ddigwydd.

Dywedodd RV, gyda LlC a DCWW, eu bod yn gwybod sut yr oedd y dull Catsgil o osod amodau taenu maetholion ar raddfa maes yn gweithio.

Dywedodd SH fod llawer o bethau cadarnhaol ynghlwm wrth yr arferion ehangach hynny fel rhan o'r gwaith hwn ac roedd pwynt NS yn un da ac y dylid ei gynnwys fel gweithio gyda CA ac LP wrth symud ymlaen.

**Argymhelliad 4.7**

Gwnaeth MW atgoffa pawb o’r holl argymhellion a phriodoldeb dull ffermio dwys EPR a gofynnodd a oes angen cymryd unrhyw gamau i gyflawni rhywfaint o'r gwaith hwn.

Gofynnodd RLD a yw Is-grŵp Gwaith Technoleg Llaeth a Chig Eidion Trwyddedu Amgylcheddol yn rhan o hyn ac a yw CNC yn arsylwi a'r pwynt ehangach yw'r cyfeiriad polisi yn y dyfodol. Dywedodd mai'r ffordd orau o gyflawni rhywbeth fyddai drwy'r cynllun yn y dyfodol a gwybod a ddylid datblygu hyn yn awr.

Cadarnhaodd MW fod y gwaith yn cael ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd a’i fod yn digwydd yn Lloegr. Cadarnhaodd NS fod CNC yno'n arsylwi.

Gofynnodd SH i AW a yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud ar lefelau Gwent

Nid oedd AK yn ymwybodol bod unrhyw adolygiad o EPR yn parhau o fewn Llywodraeth Cymru.

Dywedodd SH y dylai ein gwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y byddai'n deillio o'r Prosiect Llwytho Maetholion. Roedd angen i’r gwaith gael ei arwain gan dystiolaeth o ran yr hyn y mae angen ei wneud fel paratoad ar gyfer hynny.

Gofynnodd RV a yw gwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Lloegr yn ddigon da neu a oes angen gwneud unrhyw waith yng Nghymru i weld y manteision?

Ymatebodd SH gan ddweud ei bod yn gofyn a yw'r hyn sydd angen ei wneud yn ddadansoddiad clir a beth yw’r sefyllfa o ran hynny. Os bernir bod hyn yn flaenoriaeth, dylid cwestiynu pam a beth sydd angen ei wneud yn eu barn nhw.

Gofynnodd AW beth y mae'r adolygiad yn Lloegr yn ei gwmpasu heblaw am ddŵr.

Esboniodd RLD ei fod yn seiliedig ar y Cynllun Aer Glân a'r Amcanion Ansawdd Aer.

Dywedodd RV y gellir casglu gwersi o Loegr yn sicr ond a oes angen cynnal unrhyw waith ychwanegol i farnu ai'r cyfeiriad y mae DEFRA yn ei ddilyn ar hyn yw’r dewis gorau i Gymru?

Dywedodd SH fod EPR yn canolbwyntio’n sylweddol ar aer a phwysleisiodd y dylai'r grŵp hwn fod yn edrych ar lefel ehangach ac ystyried hyn mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n sail i'r Ddeddf Llesiant.

Awgrymodd RV y dylid comisiynu darn o waith i wneud hynny gyda chymorth Nick ac adrodd yn ôl i'r grŵp a chael trafodaeth gyda WH. Awgrymodd SH y byddai'n ddefnyddiol cadw golwg ar y briff, edrych ble mae'r cyfyngiadau a gwerth y dull EPR.

Dywedodd AK ei bod yn teimlo bod angen ystyried hyn wrth ddatblygu’r cynlluniau newydd ac wrth adolygu’r fframwaith rheoleiddio.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai Jeremy yn rhoi adborth ar unrhyw bethau sy’n cael eu dysgu.

**Argymhelliad 4.12**

Unwaith eto, cyflwynodd MW wybodaeth gefndir byr mewn perthynas â’r Argymhelliad.

***PG 10 Tachwedd: RJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Rheoli Basn Afon yn y cyfarfod nesaf.***

Gofynnodd y Cadeirydd a oes unrhyw un yn mesur pridd sy’n rhedeg i lawr afonydd ac yn monitro cymylogrwydd Afon Dyfrdwy gan edrych ar sefydlogrwydd a lliw.

Mae ymchwiliad ar Afon Dyfrdwy yn ceisio rhoi monitorau tyrbin yn y 4-5 wythnos nesaf a'i gysylltu â lliw.

Dywedodd DM fod cyflwr priddoedd yn cael ei asesu fel rhan o daliad tenantiaid sy'n ymadael am hawliau tenantiaid a allai fod o ddiddordeb. Dywedodd RV y pwynt da hwn.

Gofynnodd AH a yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ddosbarthu tir amaethyddol yn berthnasol. Dywedodd SH fod hyn yn ymwneud â'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth darparu amaethyddol. Nid yw'n edrych ar risgiau sy'n gysylltiedig o ran colli pridd.

Dywedodd SJ bod rhywfaint o fapio risg yn digwydd gyda Grŵp Beacon Waters fel rhan o waith Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.

***PG 11 Tachwedd: SJ i wirio statws a rhannu astudiaeth achos o Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.***

Soniodd SJ hefyd am indrawn o dan dreialon hau gyda Gwy ac Wysg.

***PG 12 Tachwedd: SJ i gael gwybod mwy am indrawn o dan dreialon hau a rhannu gyda'r grŵp.***

Soniodd RV ynglŷn â chynrychiolaeth Well, y gwaith o fodelu dalgylchoedd sy'n edrych ar erydu pridd o fewn caeau. Gwnaeth DCWW hefyd fapio erydiad pridd tebyg mewn dalgylchoedd ucheldir felly rhywbeth tebyg i hynny o bosibl h.y. y risg o symud priddoedd. Yn rhannol LIDAR, ond y risg o weithgareddau penodol o fewn meysydd yn sicr. Dywedodd NS fod SciMap Gwy ac Wysg yn derbyn cyllid neu byddai gallu'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn dda. Esboniodd SH fod cost o ran data ynghlwm wrth hyn a chytunodd fod hwn yn syniad da ac efallai'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar Fy Fferm fel haen ddata.

Esboniodd LP fod prosiect TGCh drwy raglen Cyswllt Ffermio a bod y prosiect yn cael ei gyflwyno drwy LANTRA. Mae'n bosibl y gallai rhai gweithdai gael eu cynnal ar SciMapping a'r manteision. Darperir y gweithdai hyn yn ddigidol ar hyn o bryd.

***Pwynt gweithredu 13 Tachwedd: Cynigiodd LP godi hyn gyda LANTRA ac adrodd yn ôl.***

Gofynnodd SH a allai Kate neu Afonydd Cymru rannu unrhyw wers y gallent fod wedi'i dysgu

CH – darparu driliau i gynorthwyo gyda'r gwaith ond rhai ffermwyr ddim yn siarad â Simon nac yn adrodd.

Dywedodd GH fod Cangen Ddŵr LIC wedi bod yn cysylltu â chydweithwyr ynghylch Rhaglen Monitro'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERRAMP) – mae llawer o samplau pridd wedi'u casglu, er enghraifft UKCEH.

***PG 14 Tachwedd: Cynigiodd GH holi cydweithwyr ar ERRAMP lle casglwyd samplau pridd er enghraifft gan UKCEH.***

Gofynnodd RV i Afonydd Cymru ddarparu neu rannu unrhyw wersi y maent wedi'u dysgu pe gellid trafod hyn.

***PG 15 Tachwedd: CH i siarad â Simon ac adrodd yn ôl.***

Cyfeiriodd DM at yr adroddiad interim a sut mae'n dweud y gall plannu coed atal pridd rhag rhedeg i ffwrdd a chyfeiriodd hefyd at y problemau o gael caniatâd i blannu coed a chan fod coed mor ddefnyddiol wrth atal dŵr ffo awgrymwyd y gallai'r grŵp hwn ymchwilio i'r mater hwn.

Dywedodd AW fod angen ystyried canlyniadau anfwriadol polisi cyhoeddus.

Cyfeiriodd CH at indrawn a'i ddiben a rhai ar gyfer cynhyrchu trydan a gofynnodd a gafwyd rhywfaint o ddata neu rifau yn ymwneud â ble mae'n mynd ac at ba ddiben ac awgrymodd y byddai'n rhaid i CNC neu Cyswllt Ffermio fynd i'r afael â'r mater.

Gofynnodd RL a oes unrhyw ddata neu wybodaeth am fioeconomi. A soniodd am yr agenda datgarboneiddio a safonau posibl a allai sbarduno hyn. Dywedodd SC y gall ymchwilio i hyn ond nid oedd wedi clywed unrhyw beth am gynyddu dulliau bwydo'r planhigion hyn.

***Pwynt gweithredu 16 Tachwedd: RV a LlC i drafod gwybodaeth am fioeconomi.***

Gofynnodd RV a yw adran arall o fewn LlC yn ystyried y pethau hyn a byddai RV yn siarad â phobl ym maes y newid yn yr hinsawdd.

***Pwynt gweithredu 17 Tachwedd: RV i siarad ag adran y newid yn yr hinsawdd o fewn LlC.***

Gofynnodd y Cadeirydd ai'r hyn sy'n ofynnol wedyn yw darganfod pwy sy'n dyfwyr dan gontract ac a ydynt yn tyfu mewn ffordd gyfrifol heb lygru afonydd a sut i sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif.

Mynegodd DM ei farn ar fiodreulwyr gan ddweud eu bod yn newyddion drwg i denantiaid oherwydd bod pobl yn cysylltu â nhw i godi biodreulydd, heb ddigon o dir i dyfu'r hyn sydd ei angen ar ei gyfer ac yna darperir rhenti mawr ar gyfer indrawn sy'n tyfu hyd at 4 neu 5 gwaith yn uwch na rhent amaethyddol. Cred fod angen edrych ar y mater hwn.

Awgrymodd SJ efallai y gall perchenogion unrhyw fiodreulwyr anaerobig ddangos rhywfaint o'r deunydd sy'n mynd i mewn iddynt. Awgrymodd DM y gallai fod angen iddo fynd yn ôl i'r cam cynllunio y byddai prawf o ble y byddai'r rhan fwyaf o'r deunydd yn dod

Awgrymodd SH fod y mater yn gymhleth ac mai'r mater allweddol i'r grŵp fyddai'r camau rheoleiddio. Esboniodd SN fod cynllun biodreulwyr anaerobig a ganiateir a hefyd eithriadau. Mae arferion gwael yn digwydd ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC yn edrych ar hyn ac mae'n perthyn i ochr wastraff y busnes ac yn gymhleth iawn.

Gofynnodd SH beth yw allbwn polisi pridd a rhaglen dystiolaeth Llywodraeth Cymru – ac a oes angen i'r grŵp drafod hyn yn ehangach gan ystyried beth yw'r canlyniadau gan ei fod yn cyd-fynd â James Kirk a'i waith a allai helpu.

Penderfynwyd gadael gweddill yr Argymhelliad ar gyfer y cyfarfod ychwanegol a fyddai'n cael ei gynnal ar 16 Tachwedd 2020.

Pwysleisiodd MW mai'r hyn fydd ei angen yw'r camau angenrheidiol i gyflawni'r gwaith.

## Eitem 5: Diweddariad ar Gynllun Cyfathrebu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Rhoddodd KS drosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Cyfathrebu. Mae hi wedi ystyried y sylwadau hynny a dderbyniwyd ac wedi diweddaru'r Cynllun. Bydd cynllun diwygiedig yn cael ei ddosbarthu yn ystod y dyddiau nesaf. Bydd ychydig mwy o newidiadau i'w gwneud ar ôl cyfarfod â thîm cyfathrebu DCWW. Y bwriad oedd dewis ychydig o flaenoriaethau allweddol i roi pethau ar waith a gosod rhai llinellau sylfaen o ran yr hyn sy'n hysbys eisoes, beth y mae angen ei wybod a beth y mae pobl eisiau ei wybod.

Mae enghreifftiau o dasgau yn cynnwys sefydlu arolwg ar gyfer y grŵp hwn, cwblhau negeseuon allweddol a negeseuon cyson a sefydlu calendr o ddigwyddiadau i gynnwys unrhyw negeseuon tymhorol neu arferion gorau neu straeon newyddion da. Wrth gyfeirio at ymddygiad Gwthio mae KS wedi cyfarfod â chynghorydd ar newid ymddygiad i geisio ei chefnogaeth.

## Eitem 6: Aelodaeth Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr oddi wrth Chris Mills yn gofyn am sedd ar gyfer Afonydd Cymru yn y grŵp.

Hefyd angen ystyried AW o'r RSPB sydd wedi bod yn ddirprwy i barhau i fod yn aelod. Mae aelodaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynnwys 25/30 o aelodau a'r rôl fydd adrodd yn ôl a dod â gwybodaeth a phryderon yn ôl ganddynt.

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb ystyried y ddau fater.

Cyflwynodd CH wybodaeth gefndir am Afonydd Cymru a chynigiodd mai ef ddylai gynrychioli Afonydd Cymru.

Esboniodd AW y byddai'n parhau fel dirprwy am y tro ond mae'r aelod o Cyswllt Amgylchedd Cymru yn fater sy'n dal i gael ei drafod. Roedd AW o blaid cael sedd ar gyfer Afonydd Cymru ar y grŵp yn ogystal â sedd ar gyfer Cyswllt Amgylchedd Cymru.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cylch gorchwyl a gofynnodd am syniadau gan aelodau'r grŵp. Dywedodd SH fod yr adborth rhwng gwaith Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r grŵp hwn yn hollbwysig ac mae sicrhau bod y berthynas yn iawn yn allweddol.

Credai DM fod aer glân yn cael ei gynnwys yn y grŵp hwn heddiw gan fod llawer o atebion ar gyfer aer yr un fath â'r atebion ar gyfer dyfroedd glân.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth a daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod angen iddi hi, RV ac AW wneud gwaith dilynol a dod i benderfyniad ar Cyswllt Amgylchedd Cymru cyn dod i benderfyniad ar Afonydd Cymru.

Cyfeiriodd RV at fod yn is-grŵp o Fforwm Rheoli Tir Cymru ond mae hefyd Fforwm Pysgodfeydd, Fforwm Dŵr a hefyd grŵp bioamrywiaeth a gofynnodd a oes rhyw ffordd o bontio rhai o'r rhain drwy gael gwell cynrychiolaeth o'r grwpiau hynny a chael barn ehangach drwy gydgysylltu ychydig yn well.

***PG 18 Tachwedd: Y Cadeirydd i siarad ymhellach â RV ac AW am gynrychiolydd ar gyfer Cyswllt Amgylchedd Cymru a gohiriwyd y penderfyniad am Afonydd Cymru am y tro. Cadeirydd i hysbysu Chris Mills.***

Gofynnodd CH i'r cwestiwn am sedd Afonydd Cymru ddod yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

ED i bennu dyddiadau'r flwyddyn nesaf.

Gwnaeth FM dynnu sylw at Bwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru a chyfarfod yr is-bwyllgorau ar 1 Rhagfyr.

***PG 19 Tachwedd: manylion i'w hanfon at RV mewn perthynas â'r drafodaeth gynharach ar erydu pridd.***

Cododd MW fater Dip Defaid a dywedodd wrth y grŵp fod gan CNC ddatganiad sefyllfa drafft ar waredu gwastraff dip defaid.

***PG 20 Tachwedd: MW i ddosbarthu datganiad sefyllfa drafft Cyfoeth Naturiol Cymru ar waredu gwastraff dip defaid i'r grŵp wneud sylwadau arno.***

Dywedodd CH wrth bawb ei fod wedi mynychu dau wrandawiad yn Llys Ynadon Llanelli ac yn achos llygredd amaethyddol yr unig bobl a fydd yn gallu eistedd wrth symud ymlaen fydd barnwyr rhanbarth gydag ardystiad am droseddau amgylcheddol. Dylai hyn arwain at rywfaint o gysondeb.

## Eitem 7: Cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y Dyfodol

- Dydd Llun 16 Tachwedd – parhau
- Dydd Llun 14 Rhagfyr

***PG 21 Tachwedd: ED i anfon dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2021.***

## Eitem 8: Unrhyw Fater arall

Hysbysodd MW y grŵp am y Safonau Dŵr – a gofynnodd i RLD a yw'r bwrdd llywio neu'r grŵp gorchwyl a gorffen ansawdd dŵr yn parhau'n weithredol ac a oes angen i'r sylwadau sy'n cael eu casglu ynghyd fynd yn ôl at y bwrdd hwnnw i'w trafod neu i'r is-grŵp hwn. Cadarnhaodd RLD eu bod yn dal i fodoli ac y gellir eu hailgynnull a'u bod yno ac ar gael i gynorthwyo

## Diwedd y cyfarfod